❖ Yr Agwedd Meddwl oedd yng Nghrist

Cyduned pawb i gyfarch baban Mair,
rhyfeddol un yn cysgu yn y gwair,
gogoniant Duw y Tad a'i nerthol Air:
Halelwia!
Amlygwn ninnau beunydd ar ein rhawd
yr agwedd meddwl ostyngedig, dlawd,
sy'n eiddo pawb yn Iesu Grist, ein Brawd:
Halelwia!
Ni fynnodd gydraddoldeb dwyfol un
ond agwedd gwas, gan ei wacáu ei hun,
ac ufuddhau hyd angau ar y bryn:
Halelwia!
Am hynny, tra dyrchafodd Duw ein rhi,
a rhoddodd arno enw Iesu cu,
enw goruwch pob enw arall sy:
Halelwia!
Yn enw Iesu plygai glin a phen,
cyffesai tafod pawb is nefoedd wen
mai'n Harglwydd Iesu biau daer a nen:
Halelwia!

John H. Tudor